**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-/RE/0703/20

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF10 3NQ

26 Chwefror 2020

Annwyl Llŷr,

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae pobl ledled Cymru wedi dioddef effeithiau trychinebus a digynsail Storm Dennis a Storm Ciara. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd pecyn ariannol o hyd at £10m i ddelio â'r ymateb cychwynnol. Bydd y cynllun rhyddhad cyllid argyfwng yn sicrhau bod pobl, busnesau a'r awdurdodau lleol yn cael cymorth ariannol mor gyflym â phosibl.

Yr wythnos nesaf byddwn yn trafod Ail Gyllideb Atodol 2019-20 a Chyllideb Derfynol 2020-21 yn y Cyfarfod Llawn. Cyn hynny, roeddwn yn meddwl y byddai o gymorth egluro sut yr ydym yn bwriadu ariannu'r ymateb cychwynnol a datgan yn awr ein bod yn disgwyl i gostau pellach ostwng pan fydd y gwaith i asesu'r effaith gyffredinol a chost y difrod gael ei gwblhau.

A throi at y pecyn cymorth ariannol brys, rydym yn monitro'r sefyllfa ariannol ar draws Llywodraeth Cymru yn agos er mwyn nodi risgiau a chyfleoedd wrth inni ddod i ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ar sail y rhagolygon diweddaraf, rydym yn credu bod y pecyn cychwynnol yn fforddiadwy o fewn cyllidebau presennol trwy ddefnyddio tanwariant sy'n dod i'r amlwg ar draws Adrannau. Byddem yn disgwyl cyfrif am yr addasiadau hyn yn yr adroddiad diwedd blwyddyn i'r Pwyllgor Cyllid.

Os na fydd hyn yn digwydd - sy'n bur annhebygol - neu os bydd angen rhagor o gyllid yn 2019-20 ar gyfer y rhyddhad argyfwng, un opsiwn yw inni ddefnyddio pwerau adran128 i awdurdodi'r defnydd o adnoddau o gofio diddordeb y cyhoedd yn y mater hwn. O gofio'r amgylchiadau eithriadol a digynsail, rwyf yn gobeithio y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn cefnogi cam o'r fath os bydd angen. Byddaf yn ysgrifennu atoch ar y cyfle cyntaf os bydd hyn yn bosibilrwydd.

Mae'n debygol, er hynny, y bydd y costau'n mynd i mewn i 2020-21. Yng Nghyllideb Derfynol 2020-21 sy'n cael ei chyhoeddi ddoe rydym yn cydnabod y byddem yn disgwyl

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

adlewyrchu unrhyw ddyraniadau pellach yn y Gyllideb Atodol Gyntaf. Er ein bod wedi llwyddo i ddod o hyd i gyllid yn y tymor byr, rydym yn disgwyl i'r costau sy'n gysylltiedig â'r difrod yn y tymor hwy fod yn sylweddol. Mae'n annhebygol y byddwn yn gallu amsugno costau'r gwaith y bydd ei angen o fewn cyllidebau presennol yn y dyfodol. Am y rheswm hwn, rwyf wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i ddweud y byddem yn gofyn i Lywodraeth y DU am gyllid ychwanegol i fodloni'r costau hyn.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd